

BECHGYN AM BYTH

Hela Llygod

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR



Felice Arena * Phil Kettle

Lluniau gan
DAVID COX

BECHGYN AM BYTH!

Cynnwys

PENNOD 1

Llygoden! 1

PENNOD 2

Paratoi 6

PENNOD 3

Sbio 13

PENNOD 4

Y Trap 18

PENNOD 5

Beth nesa? 25

MWY O STWFF

- Geiriau Gorau Hela Llygod 33
- Pethau Pwysig Hela Llygod 34
- Ffeithiau Ffynci 36
- Holi am Hwyl 38
- Haia Fechgyn! 40
- Pan Oedden Ni'n Blant 42
- Jôc! 43



Jos



Cai

Llygoden!



Mae Cai a Jos yn sefyll wrth y sied
y tu ôl i dŷ Cai.

Jos Pam mae dy dad yn rhegi?

Mae'n swnio'n grac iawn!

Cai Mae llygoden yn y sied. Mae

Dad yn trio'i dal hi cyn iddi fwyta'r
sied i gyd a dechrau ar y tŷ!



Cai Mae'n gas gen i lygod.

Jos A fi, maen nhw'n codi arswyd arna i.

Cai Beth am i ni ddal y llygoden?

Jos Beth petai hi'n bwyta'i ffordd trwy'ch tŷ chi?

Cai Ie, a fi'n deffro un diwrnod a gweld bod y llygoden wedi bwyta'r tŷ a mod i'n cysgu ar y ddaear.

Jos Dw i ddim yn meddwl y byddai un llygoden yn gallu bwyta tŷ cyfan.

Cai Mae llygod yn gallu bwyta llawer iawn.

Jos Sut wyt ti'n gwbod?

Cai Wel, rhaid eu bod nhw, achos maen nhw bob amser yn chwilio am fwy.

Jos Yn union fel ti!





Cai Reit, sut ydyn ni'n mynd i ddal y llygoden lwglyd yma sy'n byw yn sied Dad ac yn gallu bwyta tai?

Jos Wel, rhaid i ni drio meddwl fel helwyr mawr.

Cai Y rhai sy'n hela llewod a theigrod yn Affrica?

Jos Ie, rhaid i ni feddwl fel petaen
ni ar saffari yn Affrica.

Cai Wel, mae eisiau i ni baratoi.

Mae'n rhaid i helwyr mawr edrych
fel helwyr mawr.

Jos A chael y gêr iawn i gyd!



Paratoi



Mae'r bechgyn yn mynd 'nôl mewn i'r tŷ ac yn pacio popeth allai fod ei angen arnyn nhw yn eu bagiau – brechdanau Marmite, diod, caws, binocwlars – a thrap llygod ffrengig wrth gwrs, yr un mwyaf welodd neb erioed.

Jos Pam mae angen trap llygod ffrengig arnon ni?

Cai Achos dyna sut ydyn ni'n mynd i ddal y llygoden.

Jos Ond mae trap llygod ffrengig ar gyfer dal llygod ffrengig.

Cai Ydy, dw i'n gwbod, ond rhaid bod y llygoden yma bron mor fawr â llygoden ffrengig . . . ac mae llygod a llygod ffrengig yn perthyn i'w gilydd yn go agos ta beth.





Jos Wyt ti'n meddwl bod llygod cyffredin yn troi'n llygod ffrengig wrth iddyn nhw dyfu?

Cai Ydyn, wrth gwrs. Mae hynna'n gwneud synnwyr, on'd yw e?

Jos Na, ddim mewn gwirionedd. Ond ta beth, beth wnawn ni nesa?

Cai Rhaid i ni chwilio i weld ymhle yn y sied mae'r llygoden yn cuddio.

Jos Ie, rhaid i ni hela'r llygoden.

Cai Beth am ddilyn olion ei thraed?

Fe wnân nhw'n harwain ni i ble
mae hi'n cuddio.

Jos Byddai'n rhaid i ti fod yn heliwr
da iawn cyn gallu dilyn olion traed
llygoden. Dyw llygoden ddim fel
eliffant, yn gadael olion traed
enfawr ym mhobman.





Cai Falle gallen ni ddilyn ei baw hi.

Jos Os ydyn ni'n gwneud hynny,
dim ond helwyr baw fyddwn ni.

Cai Rhaid bod ffordd well o ddod o
hyd i'r llygoden.

Jos Beth petaen ni'n sbïo arni
trwy'r tyllau yn wal y sied?

Cai Syniad da.

Jos Byddwn ni fel sbïwyr go iawn . . .
ond sbïwyr llygod fyddwn ni.

Cai Wedyn, pan fyddwn ni'n gwbod
popeth amdani, byddwn ni'n gwbod
sut i'w lladd hi.

Jos Cw! Sut ydyn ni'n mynd i'w
lladd hi 'te?





Cai Dyna pam dw i 'di dod â'r trap llygod ffrengig.

Jos Y cwbl mae'n rhaid wneud yw rhoi darn o gaws yn y trap.

Cai Yna bydd y llygoden yn camu ar y trap a . . . *bang!*

Jos Bydd y trap yn cau ar ei phen a *sblat* . . . bydd 'i brêns hi ym mhobman!

Sbïo



Mae Cai a Jos yn dod o hyd i dyllau y gallan nhw sbïo drwyddyn nhw ac maen nhw'n disgwyl am y llygoden.

Jos (yn sibrawd) Pa mor hir wyt ti'n meddwl fydd yn rhaid i ni aros?



Cai (yn pwyntio'i fys) Ddim yn hir.

Edrych, dyma hi'n sleifio ar hyd y llawr wrth ymyl y wal!

Jos Ew, mae hi'n anferth. Bron mor fawr â llygoden ffrengig.

Cai Falle'i bod hi wedi bwyta hanner y sied yn barod!

Jos (yn sibrwd) Mae hi'n edrych yn glamp o lygoden gryf. Dw i'n meddwl y gallai hon ymladd yn dda.

Cai Ond fydd hi ddim yn rhoi unrhyw drafferth i helwyr gwych fel ni.

Jos Tybed fyddai hon yn gallu ymladd yn erbyn cath a'i churo?

Cai Dw i'n meddwl y gallai hon guro unrhyw gath.

Jos Gallai. Dw i'n meddwl mai llew yw'r unig gath allai guro hon.





Cai A does dim llawer o lewod o gwmpas fan hyn.

Jos Ar ôl i ni ddal y llygoden yma, gallwn ni fynd i Affrica i hela anifeiliaid gwyllt.

Cai Byddai hynny'n cŵl! Falle gallen ni hyd yn oed gael ein rhaglen deledu ein hunain.

Jos Rhaglen o'r enw 'Hela Anifeiliaid Gwyllt'.

Cai Ie, a ni – Cai a Jos – fyddai sêr y rhaglen, yr helwyr gorau'n y byd.

Jos Wel, falle dylen ni ddechrau trwy ddal y llygoden yma gynta.



Y Trap



Mae Cai a Jos yn mynd â'r trap i
mewn i'r sied.

Cai Y cwbl mae'n rhaid i ni 'i
wneud yw gosod y trap ac aros.

Jos Ond rhaid i ni osod y caws i
mewn ynddo'n gynta.

Cai Gwna di hynna.

Jos Pam mae'n rhaid i fi osod y
caws yn y trap?

Cai Achos os yw'r trap yn cau wrth
i ti osod y caws i mewn, dy fys *di*
fydd yn cael 'i ddal ynddo fe, nid
fy mys i.





Jos Pam ddylwn i roi fy mys i
i mewn? Pam na wnei *di* osod y
caws yn y trap?

Cai Achos mai fi gafodd y syniad o
ddal y llygoden. Rhaid i ti wneud
rhywfaint o'r gwaith.


Jos Dw i'n meddwl y dylen ni
wneud hyn gyda'n gilydd. Fe wna i
ddal y sbring yn ôl a galli di osod
y caws yn y trap.

Cai Iawn. Barod?

Jos Barod. Nawr, rho'r caws i mewn
yn gyflym . . . dyna fe!

Cai Does dim i'w wneud nawr ond
aros.

Jos Ie, cyn hir bydd y llygoden
anferth yna'n dod a *slam!* Bydd y
trap yn gwasgu ei brêns hi.





Mae'r bechgyn yn mynd i'w lle y tu allan i'r sied ac yn disgwyl yn amyneddgar i'r llygoden ddod.

Cai Edrych, edrych, edrych! Dacw hi!

Jos Mae hi 'di stopio! Mae hi'n gwbod mai trap yw e, dw i'n credu.

Cai Dere mla'n, lygoden fach. Cer i gael tamed o'r caws. Mae'n flasus iawn. Dw i'n gwbod. Fe ges i damed ohono fy hun.

Jos Edrych, mae'r llygoden wedi newid ei meddwl. Mae hi'n mynd.

Cai Rhaid ei bod hi'n gwbod ei bod hi'n mynd i gael ei lladd.

Jos Wel, roedd hwnna'n syniad da. Ond sut allwn ni ei dal hi nawr?





Cai Edrych, mae hi wedi dod 'nôl ac mae hi wedi dod â dwy ffrind gyda hi.

Jos Mae'i ffrindiau'n edrych yn llawer llai na hi.

Cai Falle taw llygod bach ydyn nhw. Falle mai hon yw eu mam nhw.

Jos O na . . . os ydyn ni'n ei lladd hi, bydd y llygod bach heb fam.

Beth Nesa?



Mae'r bechgyn yn eistedd yn ôl ac yn edrych ar ei gilydd. Efallai nad ydy lladd y llygoden yn syniad da wedi'r cyfan.



Cai Falle na ddylen ni ei lladd hi.
Falle dylen ni ddweud wrthi am
fynd i fyw yn rhywle arall.

Jos Gallen ni fod yn wahanol fath o
helwyr. Gallen ni ddal anifeiliaid
yna'u gadael nhw'n rhydd, neu
falle'u rhoi nhw mewn sw.

Cai Dw i erioed wedi clywed am sw
llygod!

Jos Edrych, mae'r llygoden fwya'n
arogli'r caws.

Cai Mae hi mewn penbleth. Ydy
hi'n mynd i gymryd tamed?





Mae Jos a Cai yn edrych ar ei gilydd. Yna mae'r ddau'n dechrau gweiddi.

Jos a Cai *Paid â chyffwrdd â'r caws!!!*

Cai Brysia, rhaid i ni ddad-wneud y trap.

Jos Ond beth ddwedwn ni wrth dy dad?

Cai Gallwn ni ddweud bod y llygoden wedi addo rhoi'r gorau i fwyta'r sied.

Jos Gallwn ni wneud arwydd sy'n dweud 'Dim llygod fan hyn!' a'i osod ar ddrws y sied.





Cai Syniad da.


Mae'r bechgyn yn rhuthro nerth eu traed at ddrws y sied. Fel maen nhw'n cyrraedd, maen nhw'n clywed tad Cai'n gweiddi.

Jos Dw i'n meddwl bod dy dad
newydd fynd i'r sied.

Cai Ydy. A dw i'n credu falle'i fod e
wedi dod ar draws y trap.

Mae tad Cai yn sefyll wrth ddrws y
sied. Mae e'n neidio i fyny ac i lawr
ar un droed ac yn dal ei droed arall
– sy'n sownd yn y trap!





Jos Wel, o leia ry'n ni wedi achub
y llygoden druan.

Cai Gwell i ni newid yr arwydd.

Jos Ei newid i beth?

Cai 'Rhybudd – Dad yn y sied yn
rhegi.'



Jos

Geiriau Gorau Hela Llygod



Cai


anifail gwyllt Anifail sy'n treulio llawer o'i amser yn cuddio rhag helwyr.

heliwr Rhywun sy'n hela anifeiliaid gwyllt.

llygoden Anifail bach sy'n byw yn yr ardd, neu sy'n bla yn y tŷ neu'r sied!

llygoden ffrengig Mae hon yn fwy na llygoden gyffredin ac mae ganddi gynffon hir iawn.

trap Mae helwyr weithiau'n defnyddio'r rhain i ddal anifeiliaid.



Pethau Pwysig Hela Llygod

☞ Rhaid cadw bysedd eich dwylo a'ch traed i ffwrdd oddi wrth drap sydd wedi ei osod. Cofiwch, gall trap llygod dorri eich bys – a sut fydddech chi'n gallu pigo'ch trwyn wedyn?

☞ Cofiwch wisgo treinyrs os ydych chi'n trio mynd ar ôl llygod. Maen nhw'n eich helpu chi i gerdded yn dawel.

☞ Wrth geisio dal llygoden, gwisgwch fenig cyn ei chodi. Mae llygod yn gallu cario afiechydon, ac os yw'r llygoden eisiau bwyd, gallai hi gnoi!

☞ Cofiwch fod llygod bob amser eisiau bwyd. Mae llygod call yn byw mewn llefydd lle mae llawer o fwyd ar gael.

☞ Er mwyn osgoi cael llygod yn y tŷ, gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n gadael bwyd o gwmpas heb gaead na gorchudd arno. Rhowch arwydd ar y drws ffrynt sy'n dweud 'Mae'r holl fwyd dan glo'.

☞ Rhaid blocio bob twll ac unrhyw lefydd eraill yn eich tŷ a'ch sied y gallai llygod ddod i mewn trwyddyn nhw.

☞ Peidiwch â chyffwrdd â'r caws cyn ei osod yn y trap. Mae llygod yn dda iawn am arogli ac os ydyn nhw'n arogli bod rhywun wedi cyffwrdd â'r caws, fyddan nhw ddim yn ei fwyta.

☞ Os nad ydych chi'n gallu dal llygoden sy'n bla yn y tŷ, beth am gael cath? Does dim byd yn well na chath am ddal llygod!

BECHGYN AM BYTH!

Ffeithiau Ffyni



Roedd y llygoden fwyaf erioed mor anferth nes ei bod hi'n dal cath yn ei cheg. Roedd y llygoden honno'n byw yn Disneyland. Pwy oedd hi? Mici'r Llygoden, wrth gwrs!



Mae dros 20 o wahanol fathau o lygod a llygod ffrengig.



Llygod yw'r pla mwyaf cyffredin mewn tai.



Hoff fwyd llygod yw grawn a hadau, ond fe wnân nhw gnoi bron unrhyw beth rydych chi'n ei adael allan.



Gall llygod benywaidd gael saith toraid neu fwy o lygod bach bob

blwyddyn, ac ymhob toraid bydd rhwng pump a saith o lygod bach.



Mae llygod yn gwneud eu nythod mewn llefydd cudd, caeëdig. Maen nhw'n aml yn defnyddio papur newydd, darnau o ddefnydd inswleiddio neu bethau meddal eraill i wneud eu nythod. Maen nhw hyd yn oed yn defnyddio llinyn.



Gall llygod gnoi trwy unrhyw beth, bron. Gallan nhw hefyd wasgu eu hunain trwy graciau sy'n ddim mwy nag 1 centimetr o led.



Peli bach brown tywyll yw baw llygod. Maen nhw tua 6 milimetr o hyd. Mae baw llygod ar ôl ble bynnag mae llygod yn mynd.

